ARIAN I BAWB

AWARDS FOR ALL

Cymru

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Canllawiau i ymgeiswyr

Arian i Bawb
Cod Stôc BIG-A4AWales02
Copïau pellach ar gael o:
E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0300 123 0735
Ffôn testun 0845 6 02 16 59
Ein gwefan www.arianibawb.org.uk

Mynediad
Cysylltwch â ni er mwyn trafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol a allai fod gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac mae'n defnyddio adnoddau gwirioneddol gynaliadwy yn unig.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd
Rydym wedi adnabod tri gwerth sy'n sail i'n holl waith: bod yn gefnogol ac yn barod i helpu, gwneud y defnydd gorau o arian Loteri a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr a chyllidwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadau dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin â thegwch.

© Cronfa Loteri Fawr, Mawrth 2012

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Cynnwys

Croeso i Arian i Bawb	4
Beth all Arian i Bawb ei ariannu?	7
Pwy all ymgeisio?	8
Beth all grant dalu amdano?	12
Sut i ymgeisio	15
Datblygu eich cais	18
Ein dull o asesu ceisiadau	22
Os byddwn yn cynnig grant i chi	24
Beth fyddwn yn gofyn i chi ei anfon atom	26
Os bydd eich cais yn aflwyddiannus	32
Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth	33
Cymorth a Chyngor	37

Croeso i Arian i Bawb Cymru

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am ddosbarthu hanner yr arian y mae'r Loteri Genedlaethol yn ei godi ar gyfer achosion da.

Arian i Bawb yw ein rhaglen grantiau bach, sy'n ceisio gwella cymunedau lleol a bywydau'r bobl sydd mewn angen mwyaf.

Gallwch ymgeisio am swm rhwng £500 a £5,000.

Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych:

- pwy all ymgeisio
- beth allwn ac na allwn ei ariannu
- sut i ymgeisio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu anghenion cyfathrebu (megis Braille neu brint bras, rhaglen darllen sgrin, tâp sain, iaith arwyddo neu iaith gymunedol):

- ewch at ein gwefan: www.arianibawb.org.uk
- ffoniwch ein llinell gymorth: 0300 123 0735
- anfonwch ebost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
- cysylltwch drwy ddefnyddio llinell destun os oes gennych nam ar eich clyw: 0845 6 02 16 59.

Rydym yn diweddaru ein rhaglenni o bryd i'w gilydd, felly os yw'r canllaw hwn gennych ers dros dri mis, cysylltwch gyda ni neu ewch at ein gwefan i gadarnhau mai dyma'r fersiwn ddiweddaraf. Cyhoeddwyd y fersiwn hon ym mis Mawrth 2012.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer ceisiadau Arian i Bawb yng Nghymru. Mae rhaglenni Arian i Bawb eraill yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Cewch wybodaeth amdanynt drwy ymweld â'n gwefan neu ffonio ein llinell gymorth.

Ai Arian i Bawb sy'n addas i chi?

* A oes angen rhwng £500 a £5,000 arnoch i gynorthwyo i wella eich cymuned leol a bywydau'r bobl sydd mewn angen mwyaf?
* A ydych yn sefydliad gwirfoddol neu gymunedol, ysgol, cyngor cymuned neu dref, neu gorff iechyd?
* A oes gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, yn enw eich sefydliad (neu ar gyfer ysgolion, cyfrif banc awdurdod lleol) sy'n gofyn am lofnod o leiaf dau berson (nad ydynt yn perthyn nac yn rhannu'r un cyfeiriad) ar sieciau neu i godi arian?
* A oes modd i chi anfon cais atom o leiaf dri mis cyn cychwyn eich prosiect, a chwblhau eich prosiect o fewn blwyddyn?
* A oes modd i chi egluro'r angen am eich prosiect a'r newidiadau a fydd yn digwydd yn ei sgil?

Os gallwch ateb yr holl gwestiynau hyn yn gadarnhaol, efallai mai Arian i Bawb yw'r rhaglen gywir i chi..

Os ydych yn ateb Na i unrhyw un ohonynt, ewch at www.arianyloteri.org.uk neu ffoniwch linell gymorth y Loteri ar 0845 275 0000 (llinell destun 0845 275 0022) am fanylion grantiau loteri eraill sydd ar gael.

Canllawiau ar gyfer prosiectau treftadaeth

Hyd at Fawrth 2009 rhedwyd Arian i Bawb ar y cyd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri ond bellach mae ganddynt raglen grantiau bach eu hunain ar gyfer prosiectau treftadaeth.

Golyga'r newid hwn na fydd Arian i Bawb bellach yn talu am weithgareddau treftadaeth oni bai bod prif fwriad y prosiect yn cyflawni un neu fwy o'n hamcanion ar dudalen 6 o'r canllaw hwn.

Ni fyddwn yn ariannu ceisiadau lle bo prif bwrpas y prosiect yn syrthio oddi mewn i ystod y rhaglenni sy'n cael eu cynnal gan ddosbarthwyr eraill y Loteri.

Am wybodaeth bellach am Arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri ewch at www.hlf.org.uk/cymru neu drwy ffonio 029 20 343 413.

Beth all Arian i Bawb ei ariannu?

Amcan Arian i Bawb yw:

- **Cefnogi gweithgarwch cymunedol –** drwy helpu cymunedau i gwrdd â'u hanghenion drwy weithredu gwirfoddol, prosiectau hunan gymorth, cyfleusterau neu ddigwyddiadau lleol. (Gyda chymunedau golygwn bobl sydd mewn ardal leol neu bobl sy'n rhannu diddordeb neu angen cyffredin.)
- **Ehangu mynediad a chyfranogiad –** drwy annog mwy o bobl i gymryd rhan weithredol mewn grwpiau a phrosiectau lleol, a thrwy gefnogi gweithgareddau sy'n amcanu i fod yn agored ac yn hygyrch i bawb sy'n dymuno cymryd rhan.
- **Gwella sgiliau a chreadigrwydd –** drwy gefnogi gweithgareddau sy'n helpu i ddatblygu pobl a sefydliadau, gwella sgiliau a chodi safonau.
- **Gwella ansawdd bywyd –** drwy gefnogi prosiectau lleol sy'n gwella cyfleoedd, iechyd, lles, yr amgylchedd neu gyfleusterau lleol pobl, yn enwedig y rhai sydd o dan yr anfantais mwyaf mewn cymdeithas.

Hefyd mae gennym flaenoriaethau, sef y bobl, cymunedau a sefydliadau yr ydym am eu cefnogi'n arbennig. Nid oes angen i chi gyflawni unrhyw flaenoriaethau i gael eich ystyried am grant ond gall eich cais fod yn gryfach os ydych yn gwneud hynny.

Ein blaenoriaethau yw:

- prosiectau sy'n integreiddio cymunedau, yn uno pobl o wahanol oed, profiadau neu gefndir a diwylliant
- sefydliadau newydd
- sefydliadau ag incwm blynyddol llai na £15,000
- prosiectau sy'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau newydd i gymunedau lle dangoswyd nad ydynt yn bodoli
- sefydliadau yn cael eu rhedeg gan bobl o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid, ceiswyr lloches a theithwyr
- prosiectau sy'n gwella gallu pobl ag anabledd i gyfranogi mewn gweithgareddau and
- prosiectau sy'n hyrwyddo dulliau newydd o weithio.

Pwy all ymgeisio?

Gallwch ymgeisio i Arian i Bawb os ydych yn:

- sefydliad gwirfoddol a chymunedol
- ysgol
- gyngor cymuned neu dref
- gorff iechyd.

Ond ni fydd y rhaglen hon yn ariannu:

- unigolion ac unig fasnachwyr
- sefydliadau sy'n gwneud elw
- sefydliadau statudol ac eithrio'r rhai uchod
- sefydliadau nad ydynt yn y DU.

Rydym yn annhebygol o ariannu sefydliadau nad ydynt yn iach yn ariannol neu sydd wedi derbyn grant oddi wrthym yn y gorffennol a heb ei reoli'n foddhaol.

Rhaid mai'r un sefydliad sy'n llenwi'r ffurflen ac yn derbyn y grant a rheoli'r prosiect. Ni fyddwn yn ystyried cais gan un sefydliad ar ran un arall.

Sefydliadau gwirfoddol a chymunedol

Gelwir sefydliadau gwirfoddol a chymunedol hefyd yn sefydliadau 'trydydd sector', gan eu bod ar wahân i'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Maent yn sefydliadau sy'n cael eu harwain gan werthoedd, wedi'u sefydlu at ddiben cymdeithasol yn hytrach nag er mwyn elw, ac maent yn ail-fuddsoddi gwarged er mwyn cynorthwyo i daclo materion sy'n wynebu pobl a'r blaned.

Maent yn cynnwys:

* elusennau cofrestredig a heb eu cofrestru
* cwmnïau cydweithredol
* cymdeithasau cyfeillgar
* cymdeithasau diwydiannol a darbodus
* cwmnïau nad ydynt yn fusnesau ar gyfer elw
* cymdeithasau anghorfforedig nid er elw.

Er mwyn ymgeisio i Arian i Bawb, rhaid i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gael:

* dogfen lywodraethol ysgrifenedig (er enghraifft, cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau cwmni, set o reolau neu weithred ymddiriedolaeth)
* o leiaf tri pherson heb fod yn perthyn i'w gilydd ar eu bwrdd cyfarwyddwyr(cwmnïau gan gynnwys cwmnïau buddiant cymunedol)
* leiaf tri ymddiriedolwr heb fod yn perthyn i'w gilydd ar eu bwrdd llywodraethu (elusennau cofrestredig)
* leiaf tri pherson heb fod yn perthyn i'w gilydd ar eu bwrdd llywodraethu (cydweithfeydd, cwmnïau diwydiannol a darbodus, cymdeithasau nid er elw anghorfforedig ac anghofrestredig).

Disgwyliwn i sefydliadau ag aelodaeth fod yn agored a chaniatáu i bawb ymuno, oni bai bod rheswm da pam nad yw hyn yn briodol.

Cyrff iechyd

Mae hyn yn cynnwys:

*Ymddiriedolaethau GIC

*Byrddau Iechyd Lleol

Ceisiadau gan ganghennau

Gall canghennau annibynnol o sefydliadau mwy ymgeisio yn uniongyrchol i ni. Rhaid iddynt gael eu dogfen lywodraethol eu hunain a medru rheoli arian a staff heb orfod cyfeirio at gorff arall.

Gall canghennau dibynnol hefyd ymgeisio'n uniongyrchol:

*os oes ganddynt ddogfen lywodraethol eu hunain (neu eu bod wedi mabwysiadu dogfen lywodraethol y rhiant sefydliad)

*os ydynt yn cynhyrchu eu cyfrifon blynyddol eu hunain (y gellir eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y rhiant sefydliad)

*os oes ganddynt gyfrif banc (neu gymdeithas adeiladu) eu hunain a'u bod yn gyfrifol am wario'r arian ynddo.

Os byddwn yn cynnig grant i gangen ddibynnol byddwn yn gofyn i'r rhiant sefydliad gymryd cyfrifoldeb cyffredinol.

Ar gyfer canghennau dibynnol eraill, lle mae llai o reolaeth leol, bydd angen i'r rhiant sefydliad ymgeisio.

Os ydych yn gangen ond yn ansicr os gallwch ymgeisio, cysylltwch gyda ni am gyngor.

Ceisiadau gan ysgolion

Croesawir ceisiadau gan ysgolion ond ni fyddwn yn talu am weithgareddau na gwasanaethau y mae'n ddyletswydd statudol ar ysgolion i'w darparu. Golyga hyn na fyddwn yn talu am weithgareddau sydd yng nghwricwlwm yr ysgol neu'n uniongyrchol berthnasol iddo.

Disgwyliwn i brosiectau ddigwydd cyn neu ar ôl yr ysgol, yn ystod awr ginio neu yn y gwyliau, oni bai eich bod yn medru darparu rheswm da yn eich cais i ddweud pam nad yw hyn yn bosibl (er enghraifft, eich bod mewn ardal wledig anghysbell).

Dylai prosiectau gynorthwyo plant i ddysgu pethau newydd nad ydynt yn rhan o'r diwrnod ysgol. Gall hyn gael ei gyflawni drwy weithio gyda grŵp cymunedol lleol neu bobl leol.

Derbynnir ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion arbennig yn unig pan nad yw'n briodol i gynnwys y gymuned ehangach, er y bydd yn rhaid i chi ddangos bod yr hyn yr ydych am i ni ei ariannu yn ychwanegol i'r hyn sy'n digwydd yn y diwrnod ysgol.

Mae'n rhaid i rywun a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol gyflwyno'r cais (er enghraifft, athro/athrawes neu weinyddwr).

Beth all grant dalu amdano?

Yn eich cais bydd angen i chi ein hysbysu ar beth fyddai'r grant yn cael ei wario, a sut y bydd hyn yn cyflawni un neu fwy o'n hamcanion.

Gallwch ymgeisio am swm rhwng £500 a £5,000 i ariannu'ch prosiect yn llawn neu'n rhannol.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gall grant dalu amdano:

- teganau a gemau addysgiadol
- llogi offer
- offer technoleg gwybodaeth
- deunydd hyrwyddo i'w defnyddio yn eich prosiect
- adnewyddu adeiladau
- costau cyfieithu
- costau ymchwil
- gweithwyr sesiynol (sy'n gweithio pan fo angen yn unig)
- hyfforddiant
- costau cludiant
- diweddaru offer at ddibenion iechyd a diogelwch
- llogi lleoliad
- costau gwirfoddolwyr
- TAW na fedrwch ei adfer.

Ond ni fedrwn dalu am:

- weithgareddau sy'n digwydd neu gychwyn cyn cadarnhau'r grant
- unrhyw gostau sy'n codi wrth i chi lunio'ch cais
- unrhyw wariant sy'n codi neu'n cael ei ymrwymo cyn i ni gadarnhau ein grant (gan gynnwys blaendaliadau)
- costau gweithredu dyddiol (er enghraifft, biliau gwasanaethau, treth cyngor, rhent ac yswiriant)
- costau wrth gefn
- gwaddol
- gweithgareddau cyfredol a digwyddiadau rheolaidd neu sy'n cael eu hailadrodd, gan gynnwys rhai a ariannwyd yn flaenorol
- astudiaethau dichonolrwydd
- gweithgareddau codi arian ar gyfer eich sefydliad neu eraill
- eitemau sydd er lles unigolion yn bennaf (er enghraifft, offer nad yw'n cael ei rannu)
- tir, adeiladau, prosiectau adnewyddu, tirlunio neu eiddo (gan gynnwys meysydd chwarae ac adeiladau dros dro) am £25,000 neu fwy (yn cynnwys TAW)
- benthyciadau neu daliadau llog

- costau staff parhaus (yn cynnwys cyflogau staff parhaol neu dymor penodol)
- prynu alcohol
- partïon, bwyd neu adloniant, oni bai eu bod yn perthyn yn glir i'n hamcanion ac yn dangos lles tymor hir
- gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol
- prosiectau yr ystyrir bod cymorth ar eu cyfer wedi'i dderbyn gan drydydd partner er ei fudd masnachol ei hun
- prosiectau neu weithgareddau mae rheidrwydd cyfreithlon ar y wladwriaeth i'w darparu
- prosiectau na fedrwch eu cynnal oherwydd costau uchel parhaus neu'r angen am sgiliau arbenigol
- prosiectau na ellir eu cwblhau o fewn 12 mis
- prosiectau lle mai prif nod y prosiect yw hyrwyddo neu ddatblygu'r celfyddydau, treftadaeth neu chwaraeon
- prosiectau sy'n digwydd y tu allan i Gymru
- atgyweirio a chynnal a chadw
- cerbydau ail law
- TAW y gallwch ei adfer.



TAW

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu TAW ar bwrcasau fel rhan o'ch prosiect.

Gallwch gynnwys TAW yn y swm yr ydych yn gofyn i ni ei dalu os na fedrwch ei hawlio yn ôl oddi wrth Gyllid a Thollau ei Mawrhydi yn unig.

Os fyddwch yn darganfod yn ddiweddarach bod modd i chi adfer y TAW sydd wedi ei gynnwys yn ein grant, rhaid i chi ad-dalu'r swm hwn i ni.

Tir ac adeiladau

Gall prosiectau sy'n cynnwys gwaith ar dir neu adeilad (gan gynnwys gwaith adnewyddu) fod yn gymhleth, a chymryd amser i'w cwblhau.

Rhaid i ni fod yn siŵr bod modd i chi gwblhau eich prosiect o fewn 12 mis. Felly os oes angen caniatâd cynllunio, rhaid i chi ei dderbyn cyn i chi ymgeisio.

Rhaid hefyd i rhydd-ddaliad y tir neu adeilad fod yn eiddo i chi, neu fod gennych les na ellir ei derfynu gan y perchennog am o leiaf bum mlynedd.

Arian arall

Os oes angen i chi godi arian o ffynonellau eraill, rhaid i chi fedru dangos na fydd hyn yn achosi oedi i'ch prosiect.

Sut i ymgeisio

Darllenwch y canllaw hwn

Cadarnhewch y gall eich sefydliad ymgeisio, y gallwn ariannu'r hyn yr ydych am ei wneud, bod eich prosiect yn cyflawni o leiaf un o'n hamcanion a'ch bod yn medru cyflawni telerau ac amodau'r grant.

Cwblhewch y ffurflen gais a'i hanfon atom

Anfonwch eich ffurflen gais o leiaf dri mis cyn cychwyn eich prosiect.

Mae hyn yn rhoi amser i ni asesu eich cais ac amser i chi anfon unrhyw wybodaeth yr ydym yn gofyn amdano. Mae'n well gennym dderbyn ceisiadau ebost ond rydym hefyd yn eu derbyn drwy'r post. Dim ond un cais gan eich sefydliad y gallwn ei ystyried ar y tro.

Byddwn yn asesu eich cais

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais o fewn pum niwrnod gwaith.

Os nad yw eich ffurflen gais yn gyflawn, byddwn yn ei ddychwelyd atoch ac yn rhoi 10 diwrnod gwaith i chi ddarparu'r wybodaeth goll.

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i'ch holi yn ystod ein hasesiad ond yn aml nid oes angen.

Byddwn yn eich hysbysu am ein penderfyniad

Rydym yn anelu at eich hysbysu am ein penderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith i dderbyn eich cais llawn.
O dan y rhaglen Gafael mewn Grant bydd hyd at 10 prosiect yn cyrraedd y rhestr fer, a'r cyhoedd fydd yn penderfynu pwy sy'n cael ei ariannu.

Os byddwn yn cynnig grant i chi bydd yn amodol ar lofnodi a dychwelyd y llythyr cynnig a derbyn telerau ac amodau'r grant. Bydd hefyd angen i chi anfon rhai dogfennau atom sy'n ein caniatáu i weld sut mae eich sefydliad yn cael ei reoli.

Os fydd eich cais yn aflwyddiannus byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro pam.

Dychwelwch y dogfennau yr ydym yn gofyn amdanynt

Rhaid i chi ddychwelyd popeth yr ydym yn gofyn amdanynt o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad ein llythyr cynnig.

Ni allwch gychwyn ar eich prosiect nes i ni dderbyn, cadarnhau a chymeradwyo'r llythyr cynnig wedi'i lofnodi ac unrhyw ddogfennau eraill angenrheidiol.

Os na fyddwch yn dychwelyd popeth erbyn y dyddiad cau byddwn yn tynnu ein cynnig grant amodol yn ôl (er y gallwn gytuno i estyniad byr os byddwch yn cysylltu gyda ni cyn ein dyddiad cau a bod rheswm da).

Byddwn yn gwirio'r hyn a anfonwyd atom

Byddwn yn gwirio'r hyn a anfonwyd, ac yn cysylltu o fewn 10 diwrnod gwaith.

Os fydd y dogfennau a anfonwyd atom yn foddhaol byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r grant ac i ddweud pryd y bydd yn cael ei dalu i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, ac yn ei gyhoeddi i'r wasg a'r cyfryngau.

Os fydd y dogfennau a anfonwch yn anfoddhaol byddwn yn cysylltu os byddwn yn meddwl bod modd i chi ddatrys y broblem. Os oes problem sylweddol neu rywbeth na ellir ei ddatrys, byddwn yn tynnu ein cynnig grant amodol yn ôl, ac yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y rhesymau.

Byddwch yn cychwyn ar eich prosiect

Gallwch gychwyn ar eich prosiect ar dderbyn ein llythyr yn cadarnhau'r grant.

Os byddwn yn rhoi grant i chi, ni all eich sefydliad ymgeisio eto i Arian i Bawb nes i'ch prosiect ddod i ben, ac i ni gymeradwyo eich adroddiad diwedd grant.

Ni fyddwn yn rhoi mwy na chyfanswm o £5,000 i unrhyw sefydliad mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Byddwch yn gorffen eich prosiect

Rhaid i chi gwblhau eich prosiect o fewn 12 mis i ddyddiad y llythyr cadarnhau grant.

Byddwn yn gofyn i chi lenwi adroddiad diwedd grant, yn ein hysbysu sut cafodd y grant ei wario a beth a gyflawnwyd ganddo.

Gallwn ymweld neu ffonio i gadarnhau sut gwariwyd y grant, neu ofyn am weld derbynebau gwreiddiol am yr arian a wariwyd.

Datblygu eich cais

Gall llenwi ffurflen gais ymddangos yn anodd. Mae'n cymryd amser, ac mae'n well peidio â'i daclo ar eich pen eich hun, nac i gyd ar unwaith.

Rydym am wneud asesiad teg o'ch argymhellion, ond gallwn wneud hyn ar sail y wybodaeth yr ydych yn ei roi i ni yn unig. Os mai dyma eich cais cyntaf, awgrymwn y dull canlynol.

Cychwyn

- Cychwynnwch drwy feddwl am yr angen yr ydych am ei ateb a sut gall grant Arian i Bawb eich cynorthwyo i wneud hyn, yn hytrach na meddwl 'am beth y gallwn ymgeisio'.
- Darllenwch y canllaw yn ofalus er mwyn cadarnhau y gall eich sefydliad ymgeisio ac y gallwn ariannu eich gwaith.
- Gwnewch restr o'r holl bethau sydd angen i ni ei wybod am eich prosiect, yn eich barn chi. Defnyddiwch y rhestr i gadarnhau eich bod wedi cynnwys popeth yn y ffurflen gais.
- Casglwch grŵp bychan o'ch bwrdd llywodraethu neu staff i edrych ar y cwestiynau ar y ffurflen a nodi'r prif bwyntiau wrth ateb. Defnyddiwch eich rhestr wirio i gadarnhau nad oes unrhyw beth ar goll.
- Os nad ydych yn sicr o ystyr cwestiwn, gallwch ein ffonio ar 0300 123 0735 neu anfon ebost at ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Llenwi'r ffurflen

- Mae'n well i un neu ddau o bobl gael cynnig ar ddrafft cyntaf yn hytrach na phawb yn ceisio'i ysgrifennu gyda'i gilydd. Gall bobl eraill gynnig gwelliannau yn hwyrach.
- Nid oes angen defnyddio jargon. Mewn gwirionedd, awgrymwn eich bod yn ei osgoi. Sicrhewch fod eich atebion yn glir ac yn rhwydd eu deall.

cadarnhau eich atebion

- Sicrhewch eich bod yn egluro'r angen a nodwyd, a sut y bydd eich prosiect yn ateb yr angen hwnnw.
- Byddwn yn asesu bob cais yn erbyn ein hamcanion ar dudalen 6 o'r canllaw hwn, felly dywedwch sut y bydd eich prosiect yn cyflawni o leiaf un ohonynt.
- Rhaid i'ch cyllideb prosiect fod mor gywir â phosib. Gall hyn gymryd amser, ond rydym yn annhebygol o gynnig grant hebddo.

- Sicrhewch y gallwch gadarnhau popeth gyda thystiolaeth. Nid oes angen i chi anfon unrhyw beth gyda'r ffurflen ond gallwch ddweud wrthym am y dystiolaeth sydd gennych yn eich atebion, fel y gallwn ofyn amdano os oes angen.

Cyn i chi anfon eich cais

- Cadarnhewch eich bod wedi ateb bob cwestiwn. Byddwn yn asesu ffurflenni cais cyflawn yn unig, felly os nad ydych wedi ateb bob cwestiwn, byddwn yn dychwelyd y ffurflen gyfan. Gall hyn achosi oedi sy'n golygu bod y penderfyniad yn rhy hwyr i'ch prosiect barhau.
- Rhaid i chi fedru cydymffurfio gyda'n telerau ac amodau os byddwn yn cynnig grant. Dylech gadarnhau fod hyn yn bosib cyn ymgeisio. Cewch gopi o'n telerau ac amodau ar ein gwefan, neu drwy ffonio neu anfon ebost, ac fe fyddwn yn eu hanfon atoch.
- Cofiwch gadw copi o'ch ffurflen gais rhag ofn y byddwn yn cysylltu i holi cwestiynau.

Prosiectau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus

Os ydych yn ymgeisio ar gyfer prosiect i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus (yn sgil eu hamgylchiadau neu broblemau) rhaid i chi gael polisi sy'n egluro sut y byddwch yn sicrhau eu diogelwch.

Rhaid i chi hefyd allu dangos yn eich cais y bydd eich polisi yn cael ei weithredu.

Eich cyfrifoldeb chi yw cael polisïau a threfniadau derbyniol ar gyfer amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, a gallwn ofyn am gael eu harchwilio ar unrhyw adeg os byddwn yn cynnig grant i chi.

Mae'r NSPCC wedi cynhyrchu canllaw i sefydliadau i amddiffyn plant, o'r enw 'Prawfatal'. Gallwch ddysgu mwy am hyn ar www.nspcc.org.uk neu gallwch brynu copi drwy ffonio 020 7825 7422.

Yswiriant a diogelwch

Gan ddibynnu ar y math o brosiect, gall fod angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu arweinwyr cymwys.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod gennych yswiriant digonol. Dylai hyn gynnwys sicrwydd dros unrhyw asedau a brynwch neu ddigwyddiadau a gweithgareddau yr ydych yn eu cynnal gan ddefnyddio ein grant. Gallwn ofyn am weld y polisïau hyn ar unrhyw adeg.

Rhaid i'ch sefydliad fod yn gysylltiedig gyda chorff llywodraethol os yw eich prosiect yn cynnwys chwaraeon neu weithgaredd peryglus.

Cyfle cyfartal

Disgwyliwn i brosiectau fod yn agored i bawb sydd am gyfranogi oni bai bod rheswm da yn erbyn hyn.

Os ydych yn bwriadu cyfyngu ar y rhai all gyfranogi, dylech egluro'r rheswm yn eich cais, er mwyn i ni ystyried a yw hyn yn dderbyniol.

Dylai eich cais ddangos eich ymrwymiad at ein hegwyddorion cydraddoldeb, sy'n cael eu hegluro yn ein canllaw 'Materion Cydraddoldeb'. Gellir ei dderbyn drwy'r wefan neu'r llinell gymorth

Ein dull o asesu ceisiadau

Pan fyddwn wedi derbyn ffurflen gais lawn oddi wrthych byddwn yn cychwyn ar ein hasesiad. Ni fyddwn yn ystyried mwy nag un cais oddi wrth eich sefydliad ar y tro.

Byddwn yn cadarnhau bod eich sefydliad yn medru ymgeisio, a bod eich prosiect yn rhywbeth y gallwn ei gefnogi. Yna byddwn yn ystyried:

- yr angen am eich prosiect
- pwy fydd yn elwa
- sut y byddwch yn cyflawni ein nodau
- a ydych yn cyflawni ein blaenoriaethau
- a ydym wedi eich ariannu o'r blaen
- incwm eich sefydliad
- cyfanswm costau'r prosiect.

Anaml y bydd gennym ddigon o arian i gefnogi'r holl geisiadau y byddem yn ei ddymuno. Mae angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd.

Mae gennym system sgorio i'n cynorthwyo i wneud hyn. Rydym yn rhoi mwy o bwyntiau i geisiadau sydd yn:

- dangos tystiolaeth gref o angen
- ceisio cynnwys ystod mor eang o bobl ag sy'n bosibl
- cyflawni'r mwyaf o'n hamcanion
- cyflawni ein blaenoriaethau
- sefydliad nad yw Arian i Bawb wedi ei ariannu o'r blaen
- sefydliad gydag incwm blynyddol is
- cyflawni prosiectau llai.

Mae'r sgôr y mae cais ei angen er mwyn i ni ei ariannu yn amrywio gan ddibynnu ar y swm a'r nifer o geisiadau a dderbyniwn, a'r swm o arian sydd ar gael ar y pryd.

Ceisiwn asesu bob cais yn gyfartal ac yn deg, felly mae ein tîm yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod eu hasesiadau.

Ein rheolwyr sy'n cymeradwyo'r penderfyniadau terfynol.

Ail ymgeisio

Unwaith y byddwch wedi gwario eich grant ac y byddwn wedi cymeradwyo eich adroddiad diwedd grant gallwch ymgeisio eto.

Rydym eisiau i'n harian helpu llawer o grwpiau, felly ni fyddwn yn rhoi mwy na chyfanswm o £5,000 (mewn un neu fwy o grantiau) i sefydliad mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Rydym yn cyfrifo hyn drwy ddefnyddio'r dyddiad y cadarnhawyd y grant.

Os ydych eisoes wedi derbyn arian gan Arian i Bawb a'ch bod yn ansicr os gallwch ymgeisio eto neu faint y gallwch ymgeisio amdano, cysylltwch â ni cyn i chi ymgeisio.

Rydym yn ystyried pob cais ar ei rinweddau, felly does dim gwarant y byddwn yn ariannu yr un sefydliad eto.

Mae'n annhebygol y byddwn yn ariannu yr un peth ddwy waith felly mae angen i chi ddangos eich bod yn gwneud rhywbeth gwahanol, neu'n gwneud datblygiad pwysig newydd, o'i gymharu â'r cais blaenorol.

Mae ein sgorio yn ystyried a ydym wedi ariannu eich sefydliad yn ddiweddar felly gall eich cyfle o dderbyn grant eto fod yn is, oni bai fod eich cais yn gryfach mewn mannau eraill.

Os byddwn yn cynnig grant i chi

Os byddwn yn cynnig grant i chi, bydd angen i chi gadarnhau'r hyn a ddywedwyd yn eich cais cyn i ni dalu'r grant i chi. Golyga hyn bod ein cynnig grant yn amodol ar y ffaith eich bod chi ac uwch gyswllt o'ch sefydliad yn llofnodi ac yn dychwelyd ein llythyr cynnig ac yn derbyn ein telerau ac amodau grant. Rhaid i'r ddau lofnodai fod dros ddeunaw oed ac i'r uwch gyswllt fod yn gadeirydd, ysgrifennydd, trysorydd, prif weithredwr, clerc cyngor cymuned neu dref, neu bennaeth ysgol.

Hefyd bydd angen i chi anfon rhai dogfennau a fydd yn ein galluogi i gadarnhau rheolaeth eich sefydliad. Eglurir hyn yn fanylach ar dudalen 20.

Rhaid i chi ddychwelyd popeth yr ydym wedi gofyn amdano o fewn 20 diwrnod gwaith o ddyddiad ein llythyr cynnig, neu byddwn yn tynnu ein cynnig grant amodol yn ôl (er y gallwn gytuno i estyniad byr os byddwch yn cysylltu gyda ni cyn y dyddiad cau a bod rheswm da).

Ni allwch gychwyn ar eich prosiect nes i ni dderbyn, cadarnhau a chymeradwyo'r llythyr cynnig wedi'i lofnodi ac unrhyw ddogfennau angenrheidiol eraill.

Cadarnhau ein grant

Os fydd yr hyn a anfonwch yn foddhaol byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod gwaith i'w dderbyn, yn eich hysbysu pryd y byddwn yn talu'r grant ac yn ei gyhoeddi i'r wasg a'r cyfryngau. Yna gallwch gychwyn ar eich prosiect.

Tynnu ein cynnig yn ôl

Os bydd yr hyn a anfonwch yn anfoddhaol, byddwn yn cysylltu gyda chi os credwn fod modd i chi ateb y broblem. Os oes problem fawr neu rywbeth na ellir ei ddatrys, byddwn yn tynnu ein cynnig grant amodol yn ôl ac yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y rhesymau. Gallwch anfon cais newydd atom ond cyn i chi wneud hynny, rhaid i chi edrych ar y rhesymau dros dynnu'r cynnig grant yn ôl.

Byddwn yn asesu unrhyw gais newydd ar ei deilyngdod, mewn cystadleuaeth gydag eraill, felly mae'n bosibl na fydd yn llwyddiannus.

Monitro eich grant

Os byddwn yn ariannu eich prosiect, bydd angen i chi lenwi adroddiad diwedd grant yn cadarnhau sut y cafodd y grant ei wario a beth a gyflawnwyd.

Gallwn ofyn am dderbynebau gwreiddiol felly sicrhewch eich bod yn eu cadw.

Gallwn hefyd ymweld â chi er mwyn cadarnhau gwariant y grant.

Ein cynllun iaith Gymraeg

O dan Gynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr, mae'n ofynnol i brosiectau ddangos sut y gall siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau gael mynediad atynt. Mae hyn yn cynnwys darparu'r holl ddeunyddiau a ariennir gan y grant yn Gymraeg a Saesneg, hysbysebu unrhyw swyddi a ddarperir gan y grant yn ddwyieithog a rhoi ystyriaeth i naws ieithyddol y gymuned drwy gydol cyfnod y grant.

Mae arweiniad pellach ynglŷn â'r gofynion hyn ar gael yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr: www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales/about-wal/welsh_language.htm neu drwy staff swyddfa Cymru.

Beth fyddwn yn gofyn i chi ei anfon

Cyn i chi ymgeisio, sicrhewch fod modd i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol os byddwn yn cynnig grant amodol i chi.

Peidiwch â'i anfon gyda'ch cais.

Byddwn yn cadarnhau'r hyn sydd ei angen oddi wrthych yn ein llythyr cynnig ac yn cynnwys rhestr wirio. Ni fedrwch ddechrau ar eich prosiect nes i ni dderbyn, cadarnhau a chymeradwyo popeth angenrheidiol.

Bydd yr hyn yr ydym yn gofyn amdano yn dibynnu ar y math o sefydliad sy'n ymgeisio.

Sefydliadau gwirfoddol a chymunedol

- Bydd angen copi o gyfrifon blynyddol diweddaraf eich sefydliad, wedi'u cymeradwyo, wedi'u llofnodi a'u dyddio gan eich cadeirydd, ysgrifennydd neu drysorydd a gan eich archwilydd neu archwilydd annibynnol, lle bo'n briodol. Os yw eich sefydliad yn iau na 15 mis, efallai na fydd modd i chi roi hyn i ni, felly yn yr achos hwn byddwn yn derbyn rhagolwg ariannol 12-mis ar gyfer y flwyddyn pan fyddwch yn gwario'r grant.
- Byddwn yn anfon 'ffurflen manylion banc neu gymdeithas adeiladu' atoch. Bydd angen i chi ofyn i'ch banc neu gymdeithas adeiladu ei gwblhau, i wirio eich cyfrif. Gall eich banc godi tâl bychan am hyn, na fedrwch ei hawlio oddi wrthym.
- Bydd angen tair tudalen olynol o ddatganiadau banc (neu gymdeithas adeiladu) gwreiddiol. Yn dibynnu ar nifer y trafodion, gall hyn gwmpasu un, dau neu dri mis, ond rhaid i'r dudalen ddiweddaraf a anfonwch fod yn llai na thri mis oed. Os ydych yn defnyddio paslyfr cymdeithas adeiladu, bydd angen copïau o dair tudalen yn olynol o'ch paslyfr, wedi'u cadarnhau gan eich cymdeithas adeiladu gyda stamp a llofnod fel 'copïau cywir o'r gwreiddiol'. Rhaid i'r tudalennau a anfonwch gynnwys eich trafodion diweddaraf a manylion eich cyfrif.
- Oni bai eich bod yn elusen gofrestredig neu gwmni cyfyngedig drwy warant (neu elusen gofrestredig sydd hefyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant) bydd angen copi o ddogfen lywodraethol, cyfansoddiad neu set o reolau eich sefydliad.
- Os ydych yn gangen o sefydliad mwy sydd â rheolaeth weinyddol

ac ariannol dros eich gwaith bydd angen llythyr, wedi'i lofnodi gan uwch swyddog o'r prif sefydliad, yn cadarnhau eu cefnogaeth i'ch cais ac yn derbyn cyfrifoldeb cyffredinol drosto.

- Mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am fanylion canolwr annibynnol, rhywun sy'n annibynnol i'ch sefydliad ond sydd â gwybodaeth dda am eich gwaith. Os bydd angen canolwr annibynnol, byddwn yn esbonio ein gofynion pan fyddwn yn cysylltu â chi.

Cynghorau cymuned neu dref

- Bydd angen datganiad banc (neu gymdeithas adeiladu) gwreiddiol o'r tri mis diwethaf, neu gopi o'r dudalen ddiweddaraf o'ch paslyfr cymdeithas adeiladu, wedi'i stampio a'i wirio ganddynt fel copi cywir o'r gwreiddiol.
- Gallwn ofyn i chi anfon copi o'ch cyfrifon neu adroddiad archwiliad diweddaraf.

Ysgolion

- Os oes gan eich ysgol gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, bydd angen datganiad gwreiddiol o'r tri mis diwethaf, neu gopi o'r dudalen ddiweddaraf o'ch paslyfr cymdeithas adeiladu, wedi'i stampio a'i wirio fel copi cywir o'r gwreiddiol.
- Os yw eich ysgol yn defnyddio cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu awdurdod lleol bydd angen llythyr wedi'i arwyddo gan uwch swyddog yn yr awdurdod lleol gyda manylion y cyfrif lle dylid talu'r grant a chadarnhad y bydd ein grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect sy'n cael ei ddisgrifio yn eich cais yn unig.

Cyrff iechyd

- Bydd angen llythyr wedi'i lofnodi gan uwch swyddog o'ch sefydliad gyda manylion y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu lle dylid talu'r grant a chadarnhad y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect sy'n cael ei ddisgrifio yn eich cais yn unig.

Rydym wedi cyhoeddi canllaw ar wahân i dderbyn cynnig grant amodol, sy'n esbonio'r gofynion hyn yn fanylach. Gallwch gael gafael ar y ffurflen hon ar ein gwefan neu drwy ffonio ein llinell gyngor. Dylech ei ddarllen yn ofalus cyn ymgeisio i wirio y bydd modd i chi anfon popeth atom y mae ei angen arnom.

Cymorth gyda dogfennau llywodraethol

Mae dogfen lywodraethol yn gosod yn ysgrifenedig sut mae sefydliad yn gweithio. Gellir ei alw yn nifer o bethau, megis cyfansoddiad, set o reolau neu weithred ymddiriedaeth. Mae'n egluro pwrpas eich sefydliad ac sut mae'n cyflawni'r pwrpas hwnnw.

Rhaid i ni fod yn siŵr fod y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu yn cael eu sefydlu'n gywir ac yn medru rheoli grant. Mae ystyried dogfen lywodraethol sefydliad yn un ffordd o wneud hyn.

Mae ysgolion, cyrff iechyd a chynghorau tref neu gymuned yn gyrff statudol, tra bod elusennau cofrestredig a chwmnïau wedi'u rheoleiddio, felly nid oes angen i ni weld eu dogfennau llywodraethol. Serch hynny, mae angen i ni gadarnhau dogfennau llywodraethol sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod modd i ni eu hariannu.

Os byddwn yn cynnig grant amodol i chi, ac yna'n darganfod nad oes modd i ni ariannu eich sefydliad, bydd yn rhaid i ni dynnu ein cynnig yn ôl. Felly os ydych yn grŵp gwirfoddol neu gymunedol newydd, neu os nad ydych wedi ymgeisio gyda ni o'r blaen, rydym yn argymell y dylech ystyried a oes arnoch angen help a chyngor wrth ysgrifennu eich dogfen lywodraethol cyn ymgeisio.

Rydym wedi cyhoeddi 'arweiniad llywodraethu da', sy'n egluro pam fod eich dull o redeg eich sefydliad yn bwysig i ni. Mae'r wybodaeth yma ar gael ar ein gwefan neu drwy ffonio ein llinell gymorth.

Ein gofynion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu

Rhaid i chi gael cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, yn enw'r sefydliad sy'n cyflwyno'r cais i ni ac a fydd yn cyflawni'r prosiect.

Mae angen llofnod o leiaf dau berson ar bob siec neu i godi arian.

Os oes unrhyw lofnodwyr yn perthyn i'w gilydd neu'n byw yn yr un cyfeiriad, rhaid i ni gael cadarnhad ysgrifenedig gan eich banc neu gymdeithas adeiladu nad ydynt yn medru cyd awdurdodi taliadau.

Os ydych yn ysgol, mae cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu awdurdod lleol hefyd yn dderbyniol.

Gallwn ofyn i chi agor cyfrif banc newydd ar wahân a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ein harian ni yn unig. Os derbyniwyd grant Cronfa Loteri Fawr o'r blaen, ac i ni ofyn i chi agor cyfrif ar wahân, rhaid i chi hefyd ddefnyddio'r cyfrif hwn ar gyfer grant Arian i Bawb.

Sefydliadau newydd

Os yw eich sefydliad yn llai na thri mis oed bydd angen yr holl ddatganiadau gwreiddiol a dderbyniwyd gan eich banc neu gymdeithas adeiladu (neu gopïau o'r holl dudalennau yn eich paslyfr cymdeithas adeiladu sydd yn cynnwys trafodion).

Hefyd bydd angen llythyr gwreiddiol gan eich banc neu gymdeithas adeiladu yn dangos manylion eich cyfrif a phryd y cafodd ei agor.

Cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu ar y rhyngrwyd

Os yw eich sefydliad yn defnyddio cyfrif ar y we, mae angen y datganiadau papur gwreiddiol beth bynnag. Bydd angen i chi ofyn i'ch banc neu gymdeithas adeiladu eu hanfon atoch, gan na fedrwn dderbyn fersiynau wedi'u llwytho i lawr.

Hefyd bydd angen o leiaf dau berson i awdurdodi taliad. Os fydd unrhyw rai sy'n medru awdurdodi taliad yn perthyn neu'n rhannu cyfeiriad bydd angen cadarnhad ysgrifenedig gan eich banc neu gymdeithas adeiladu nad ydynt yn medru cyd awdurdodi taliadau.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus

Byddwn yn ystyried pob cais mewn cystadleuaeth â'i gilydd ac rydym yn gwybod y byddwch yn siomedig os penderfynwn i beidio rhoi grant i chi.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus byddwn yn ysgrifennu atoch gan roi'r rhesymau. Ystyriwch ein rhesymau yn ofalus cyn penderfynu a ddylid ymgeisio eto.

Gan nad oes gennym fel rheol ddigon o arian i gefnogi'r holl geisiadau yr ydym yn dymuno, os byddwch yn ail anfon yr un cais eto, mae'n debygol o fod yn aflwyddiannus eto.

Efallai y byddai'n well i chi dreulio eich amser yn ymgeisio am arian o ffynonellau eraill. Awgrymwn na ddylech ymgeisio eto ar ran yr un prosiect os na allwch wneud cais cryfach.

Gofal cwsmeriaid

Anelwn at fod yn effeithiol, cwrtais a chefnogol yn ein holl waith.

Os ydych yn teimlo ein bod wedi eich trin yn annheg, wedi gwneud camgymeriadau neu roi cyngor anghywir i chi, mae gennym drefn gwynion. Gallwch ei gweld ar ein gwefan neu drwy ffonio ein llinell gymorth.

Efallai y byddwch yn siomedig os byddwn yn gwrthod eich cais ond nid oes modd i chi ddefnyddio'r drefn cwynion er mwyn apelio yn erbyn ein penderfyniad os ydym wedi dilyn ein trefniadau'n gywir.

Ni fydd gwneud cwyn yn effeithio ar eich siawns o dderbyn grant gennym nac ar lefel y gwasanaeth y byddwch yn ei dderbyn.

Diogelu Data, Iaith Gymraeg a Rhyddid Gwybodaeth

Diogelu data

Byddwn yn defnyddio'r data rydych yn ei roi i ni ar y ffurflen ymgeisio ac ar ddogfennau atodol yn ystod yr asesiad ac yn ystod cyfnod unrhyw grant a ddyfarnwn i chi i weinyddu a dadansoddi grantiau ac at ein dibenion ymchwil ein hunain.

Mae'n bosib y byddwn yn rhoi copïau o ran neu'r cyfan o'r wybodaeth hon i unigolion a mudiadau rydym yn ymgynghori â nhw wrth asesu ceisiadau, gweinyddu'r rhaglen, monitro grantiau a gwerthuso prosesau ac effeithiau ariannu. Gall y mudiadau hyn gynnwys cyfrifwyr, gwerthuswyr allanol a mudiadau neu grwpiau eraill sy'n ymwneud â chyflwyno'r prosiect.

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda mudiadau ac unigolion sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri neu raglenni ariannu penodol. Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu arian cyhoeddus a chan hynny, mae'n bosib y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri, mudiadau sy'n darparu arian cyfatebol neu at ddibenion atal a chanfod twyll.

Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol a ddarperir gennych er mwyn cyflawni gwiriadau adnabyddiaeth priodol. Gall gwybodaeth bersonol rydych yn ei darparu gael ei datgelu i asiantaeth cyfeirnod credyd neu atal twyll a fydd, o bosib, yn cadw cofnod o'r wybodaeth honno.

Os byddwch yn darparu gwybodaeth ffug neu anghywir yn eich cais neu unrhyw bryd yn ystod cyfnod unrhyw ariannu a ddyfarnwn i chi ac mae twyll yn cael ei adnabod, byddwn yn darparu manylion i asiantaethau atal twyll, er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian. Gallwch gael manylion pellach yn esbonio sut y gelir defnyddio'r wybodaeth a ddelir gan asiantaethau tal twyll gan ein pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth trwy anfon e-bost i dataprotection@biglotteryfund.org.uk, ffonio ein llinell gymorth ar 0300 123 0735, neu ysgrifennu at: y Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth, Cronfa Loteri Fawr, 1 Plough Place, Llundain, EC4A 1DE.

Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r data rydych yn ei ddarparu at ddibenion ymchwil. Cydnabyddwn yr angen am gynnal cyfrinachedd grwpiau bregus ac ni chaiff eu manylion eu cyhoeddi mewn unrhyw ffordd oni bai bod y gyfraith yn mynnu bod hyn yn cael ei wneud.

Iaith Gymraeg

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â mudiadau sy'n derbyn ariannu gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru lynu wrth ofynion y Ddeddf wrth ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i holl ddeiliaid grantiau'r Gronfa Loteri Fawr:

- hyrwyddo eu prosiect yn ddwyieithog a darparu fersiynau dwyieithog o'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys cyhoeddiadau a gwefannau, y talwyd amdanynt gyda'n grant
- hysbysebu pob swydd y telir amdani gyda'n grant yn y wasg yn Gymraeg a Saesneg, ac ystyried p'un a oes angen i'r swydd gael ei llenwi gan siaradwr Cymraeg neu beidio, ac
- ystyried cyfansoddiad ieithyddol y gymuned y maent yn gweithio ynddi drwy gydol cyfnod y grant.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i'r cyhoedd ofyn am unrhyw wybodaeth a ddelir gennym. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dderbynnir gan drydydd parti megis y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: ymgeiswyr am grantiau, deiliaid grantiau, contractwyr a phobl sy'n gwneud cwyn.

Os gofynnir am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ei rhyddhau yn amodol ar eithriadau, er y mae'n bosib y byddwn yn dewis ymgynghori â chi'n gyntaf. Os credwch y gallai gwybodaeth rydych yn ei darparu fod wedi'i heithrio o gael ei rhyddhau, rhowch wybod i ni am hyn pan fyddwch yn ymgeisio.

Cymorth a chyngor

Efallai bod gennych gwestiynau am sut i ymgeisio neu gynllunio eich prosiect. Mae nifer o ffynonellau cymorth a chyngor ar gael.

Ffoniwch ni gydag unrhyw gwestiynau ar 0300 123 0735 neu anfonwch ebost at ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Os oes gennych nam ar eich clyw gallwch gysylltu drwy ddefnyddio llinell destun ar 0845 6 02 16 59.

Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau a all eich cynorthwyo gyda'ch cais neu ddogfen lywodraethol eich sefydliad, megis Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol ac awdurdodau lleol.

Dyma rai sefydliadau a gwefannau a all fod o gymorth i chi.

Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r lle i ddod o hyd i fanylion cyswllt eich Awdurdod Lleol. Efallai bod ganddynt swyddog Loteri neu dîm ariannu a all helpu.
www.new.wales.gov.uk/topics/localgovernment

Gallwch ddod o hyd i'ch Cyngor Gweithredu Gwirfoddol lleol ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).
www.wcva.org.uk

Gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer y sefydliadau hyn yn eich llyfr ffôn.

Busnesau sy’n cynnig cymorth

Mae rhai busnesau yn hyrwyddo eu gwasanaethau drwy ddweud wrth gwsmeriaid posibl am Arian i Bawb. Gallant gynnig gwasanaethau ymgynghori neu awgrymu eu bod yn gweithredu ar ein rhan. Gallant hefyd gynnig eich cynorthwyo i lenwi’r ffurflen am dâl neu flaendal.

Noder bod y broses ymgeisio yn rhad ac am ddim, ac nad oes angen talu am unrhyw gymorth yn ein barn ni.

Nid ydym yn gweithredu gyda, nac yn cefnogi gwasanaethau unrhyw gyflenwr nac ymgynghorydd, ac ni fyddwn yn talu unrhyw gostau, comisiwn na thaliadau y byddant yn codi arnoch i wneud cais.

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen eich hun, gan sicrhau bod eich prif gyswllt a'ch uwch gyswllt yn gwbl ymwybodol o nodau'r prosiect, ac ymgeisio'n uniongyrchol i ni.